YSGOL DYFFRYN CONWY

Polisi e-ddiogelwch

Dyddiad Cymeradwyo a Dyddiad Adolygu
Date Approved and Review Date

Gweler Cynllun Adolygu Polisiau
See Policy Review Timetable

Polisi'r Ysgol

Mae technolegau digidol wedi dod yn rhan anhepgor o fywydau plant a phobl ifanc, yn yr ysgol ac oddi allan i'r ysgol. Mae'r technolegau hyn yn arfau grymus sy'n cynnig cyfleoedd newydd i bawb. Gellir defnyddio'r technolegau hyn i sbarduno trafodaeth, hybu creadigrwydd a gwella ymwybyddiaeth o gyd-destun i annog dysgu effeithiol. Dylai pobl ifanc fod â'r hawl i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel bob amser.

Diben y Cytundeb Defnydd Derbyniol yw sicrhau'r canlynol:

- y bydd pobl ifanc yn ddefnyddwyr cyfrifol ac yn cadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd a thechnolegau digidol eraill at ddibenion addysgol, personol a hamdden.
- y caiff systemau a defnyddwyr yr ysgol eu gwarchod rhag camddefnydd damweiniol neu fwriadol a allai beryglu diogelwch y systemau a'r defnyddwyr.

Bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau fod gan fyfyrwyr / disgyblion fynediad da at dechnolegau i wella eu profiad dysgu, ac yn sgil hynny, bydd yr ysgol yn disgwyl i'r myfyrwyr / disgyblion gytuno i fod yn ddefnyddwyr cyfrifol.

Cytundeb Defnydd Derbyniol

Deallaf fod rhaid i mi ddefnyddio systemau TGCh yr ysgol yn gyfrifol, i sicrhau na chaiff fy niogelwch i na diogelwch y systemau TGCh a defnyddwyr eraill eu peryglu.

I sicrhau fy niogelwch personol i:

- Deallaf y bydd yr ysgol yn monitro fy nefnydd o systemau TG, dyfeisiau a chyfathrebu digidol.
- Byddaf yn cadw fy enw defnyddiwr a fy nghyfrinair yn ddiogel - ni wnaf eu rhannu ag eraill, ac ni wnaf geisio defnyddio enw defnyddiwr a chyfrinair rhywun arall. Deallaf na ddylwn ysgrifennu na storio cyfrinair yn rhywle ble gallai rhywun arall ei ddwyn.
- Byddaf yn ymwybodol o "beryglon dieithriaid" pan fyddaf yn cyfathrebu ar-lein.
- Ni wnaf ddatgelu na rhannu gwybodaeth bersonol amdanaf i nac eraill pan fyddaf ar-lein (gallai hyn gynnwys enwau, cyfeiriadau, cyfeiriadau e-byst, rhifau ffôn, oedran, rhyw, manylion addysgol, manylion ariannol ac ati).
- Os byddaf yn trefnu i gwrdd â phobl rwyf wedi cyfathrebu â hwy ar-lein yn y byd all-lein, byddaf yn trefnu i wneud hynny mewn lle cyhoeddus a bydd oedolyn yn mynd gyda fi.
- Byddaf yn rhoi gwybod yn syth am unrhyw ddeunyddiau neu negeseuon annymunol neu anaddas neu unrhyw beth sy'n gwneud i mi deimlo'n anghyfforddus wrth ei weld ar-lein.

Deallaf fod gan bawb hawliau cyfartal i ddefnyddio technoleg fel adnodd ac:

- Rwy'n deall mai defnydd addysgol yw prif ddiben systemau a dyfeisiau'r ysgol, ac ni wnaf eu defnyddio at ddibenion personol neu hamdden oni fyddaf wedi cael caniatâd.
- Ni wnaf geisio (oni byddaf wedi cael caniatâd) lawr lwytho neu uwch lwytho ffeiliau mawr a allai arafu'r rhyngrwyd ac atal defnyddwyr eraill rhag gwneud eu gwaith.
- Ni wnaf ddefnyddio systemau na dyfeisiau'r ysgol i chwarae gemau ar-lein, gamblo ar-lein, siopa ar-lein, rhannu ffeiliau neu ddarlledu fideos (e.e. Youtube), oni fyddaf wedi cael caniatâd gan aelod o staff i wneud hynny. (dylai ysgolion addasu'r adran hon yn unol â'u polisi ynghylch pob un o'r materion hyn)

Byddaf yn ymddwyn fel rwyf yn disgwyl i eraill ymddwyn tuag ataf i:

- Byddaf yn parchu gwaith ac eiddo pobl eraill ac ni wnaf gyrchu, copïo, symud na newid ffeiliau unrhyw ddefnyddiwr arall, oni fydd y perchennog yn gwybod am hynny ac wedi rhoi caniatâd i mi.
- Byddaf yn gwrtais ac yn gyfrifol pan fyddaf yn cyfathrebu ag eraill, ni wnaf ddefnyddio iaith gref, ymosodol nac anaddas, ac rwy'n gwerthfawrogi fod gan bobl eraill safbwyntiau gwahanol.
- Ni wnaf dynnu lluniau o neb na'u dosbarthu heb eu caniatâd.

RWY'N CYDNABOD FOD GAN YR YSGOL GYFRIFOLDEB I GYNNAL DIOGELWCH AC INTEGRIAD Y DECHNOLEG Y MAE'N EI CHYNNIG I MI AC I SICRHAU FOD YR YSGOL YN RHEDEG YN EFFEITHIOL:

- Byddaf ond yn defnyddio systemau TGCh yn yr ysgol, gan gynnwys y rhyngrwyd, e-bost, fideo digidol, technolegau symudol, ac ati at ddibenion ysgol.
- Byddaf ond yn mewngofnodi i rwydwaith ysgol / lwyfan dysgu gyda fy enw defnyddiwr a chyfrinair fy hun.
- Byddaf yn dilyn system ddiogelwch TGCh yr ysgol, byddaf yn newid fy nghyfrineiriau yn rheolaidd ac ni fyddaf yn eu datgelu i unrhyw un.
- Byddaf yn sicrhau bod yr holl gyfathrebu TGCh â disgyblion, athrawon neu eraill yn gyfrifol ac yn synhwyrol.
- Byddaf yn gyfrifol am fy ymddygiad wrth ddefnyddio'r Rhyngrwyd. Mae hyn yn cynnwys yr adnoddau yr wyf yn eu defnyddio a'r iaith yr wyf yn ei ddefnyddio.
- Ni fyddaf yn lawr lwytho, yn gosod nac yn ceisio gosod neu storio rhaglenni o unrhyw fath ar unrhyw ddyfais ysgol, ac ni fyddaf yn ceisio newid gosodiadau cyfrifiadurol.
- Ni fyddaf yn fwriadol yn pori, uwch lwytho, lawr lwytho neu gael mynediad at unrhyw ddeunyddiau y gellid eu hystyried yn anghyfreithlon, neu yn anaddas ac amhriodol neu rai allai achosi niwed neu ofid i eraill, ac ni fyddaf yn ceisio defnyddio unrhyw raglenni neu feddalwedd a allai fy ngalluogi i osgoi'r systemau hidlo / systemau diogelwch sydd yn eu lle i atal mynediad i ddeunyddiau o'r fath. Os byddaf yn ddamweiniol yn dod ar draws unrhyw ddeunydd o'r fath, byddaf yn dweud yn syth wrth fy athro/athrawes.
- Byddaf ond yn defnyddio fy nghyfeiriad e-bost ysgol.
- Ni fyddaf yn agor unrhyw 'hyperlinks' mewn negeseuon e-bost neu nac unrhyw atodiadau i negeseuon e-bost, oni bai fy mod yn gwybod ac yn ymddiried y person / sefydliad a anfonodd yr e-bost, neu os oes gennyf unrhyw bryderon ynghylch dilysrwydd yr e-bost (oherwydd risg yr atodiad sy'n cynnwys firysau neu raglenni niweidiol eraill).
- Byddaf yn adrodd ar unwaith am unrhyw ddifrod neu ddiffygion i gyfarpar neu feddalwedd, beth bynnag a phryd bynnag y gwelaf fod difrod wedi ei wneud.
- Byddaf ond yn defnyddio fy nyfais/nyfeisiau personol (ffonau symudol / dyfeisiau Co-bach (usb) ac ati yn yr ysgol os bydd caniatâd wedi ei roi imi wneud hynny. Deallaf y bydd rhaid i mi ddilyn y rheolau a nodir yn y cytundeb hwn, yn yr un modd ag y byddwn yn defnyddio offer ysgol, os ydw i am ddefnyddio fy nyfais/nyfeisiau fy hun yn yr ysgol.
- Rwy'n deall na chaniateir defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod unrhyw wers neu weithgaredd ysgol a dim ond gyda chaniatâd ac ar yr amseroedd y caniateir defnydd o safleoedd cyfryngau cymdeithasol.
- Byddaf yn sicrhau na fydd fy ngweithgaredd ar-lein, yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol yn dwyn anfri nac yn achosi gofid i fy ysgol, y staff, y disgyblion neu eraill.
- Byddaf yn cefnogi ymagwedd yr ysgol tuag at ddiogelwch ar-lein ac ni fyddwn yn uwch lwytho neu ychwanegu unrhyw ddelweddau, fideo, synau neu destun yn fwriadol a allai beri gofid neu droseddu yn erbyn unrhyw aelod o gymuned yr ysgol.
- Byddaf yn parchu preifatrwydd a pherchnogaeth gwaith eraill ar-lein bob amser.
- Rwy'n deall y gall fy holl ddefnydd o'r Rhyngrwyd a thechnolegau cysylltiedig eraill gael ei fonitro a'i logio a gall fod ar gael i'm hathrawon.
- Rwy'n deall bod y rheolau hyn wedi'u cynllunio i'n nghadw fi yn ddiogel ac os na chânt eu dilyn, y byddaf yn wynebu camau disgyblu.

WRTH DDEFNYDDIO'R RHYNGRWYD AT DDIBENION YMCHWIL NEU HAMDDEN, RWY'N CYDNABOD CANLYNOL:

- Byddaf yn parchu preifatrwydd a pherchnogaeth gwaith pobl eraill ar-lein bob amser.

- Lle mae'r gwaith o dan hawlfraint, ni wnaf geisio lawrlwytho copïau (yn cynnwys cerddoriaeth a fideos)
- Pan fyddaf yn defnyddio'r rhyngrwyd i ganfod gwybodaeth, dylaf ofalu fy mod yn sicrhau fod yr wybodaeth y byddaf yn ei chyrchu yn gywir, oherwydd rwy'n deall y gall gwaith pobl eraill fod yn wallus, a gallai fod yn ymgais bwriadol i fy nghamarwain.

RWY'N DEALL FY MOD YN ATEBOL AM FY NGWEITHREDOEDD, YN YR YSGOL AC ODDI ALLAN I'R YSGOL:

- Rwy'n deall fod gan yr ysgol hawl i gymryd camau yn fy erbyn os byddaf yn rhan o ddigwyddiadau o ymddygiad annerbyniol sydd wedi'u cynnwys yn y cytundeb hwn, pan fyddaf yn yr ysgol a phan fydd y digwyddiadau hynny yn gysylltiedig â'n haelodaeth o gymuned yr ysgol (byddai enghreifftiau yn cynnwys seibrfwlio, defnyddio delweddau neu wybodaeth bersonol).
- Rwy'n deall bod gan yr ysgol yr hawl i weithredu yn fy erbyn hefyd os ydw i'n ymwneud â digwyddiadau ymddygiad amhriodol, pan fyddaf y tu allan i'r ysgol a lle maen nhw'n cynnwys fy aelodaeth yng nghymuned yr ysgol (ee Os ydw i'n ymwneud â seibr-fwlio, defnyddio delweddau neu wybodaeth bersonol).
- Rwy'n deall os byddaf yn methu â chydymffurfio â'r Cytundeb Defnydd Derbyniol hwn, byddaf yn destun camau disgyblu. Gall hyn gynnwys colli mynediad i rwydwaith / rhyngrwyd yr ysgol, ataliadau, cysylltu â rhieni ac os byddaf yn rhan o weithgareddau anghyfreithlon lle mae'r heddlu yn ymchwilio i'r achos.
- Rwy'n deall bod y rheolau hyn wedi'u cynllunio i'n nghadw fi yn ddiogel ac os na chânt eu dilyn, byddaf yn wynebu camau disgyblu.

POLISI YSGOL 'DOD Â DYFAIS' EICH HUN (DAD)

Diffiniad o ddyfais digidol eich hun - ffon symudol / tabled / offer sain / clustffonau / cyfrifiadur / gliniadur.

Byddwch yn dod a dyfais eich hun i'r ysgol yn gyfan gwbl ar risg y defnyddiwr a'u rhieni / gwarcheidwad ac mae'r penderfyniad i ddod a dyfais i'r ysgol yn gyfrifoldeb i'r defnyddiwr a'u rhieni / gwarcheidwad, ynghyd â'r atebolrwydd am unrhyw golled neu ddifrod sy'n deillio o'r defnydd o'r ddyfais yn yr ysgol.

Blwyddyn 7 - 11

- **Ni ddylai dyfeisiadau gael ei defnyddio ar unrhyw achlysur yn ystod y diwrnod ysgol (08:55 – 3:30) (mae hyn yn cynnwys amser egwyl a chinio) oni bai bod angen penodol mewn argyfwng neu rheswm penodol sydd wedi cael ei drafod gyda'r dysgwr a'r rhieni / gwarcheidwad o flaen llaw.**
  - Mae defnydd o ddyfeisiau tu allan i'r oriau hyn ar dir yr ysgol yn gyfan gwbl ar risg y defnyddiwr.

Blwyddyn 12 – 13

- **Ni ddylai dyfeisiadau gael ei defnyddio ar unrhyw achlysur yn ystod y diwrnod ysgol(08:55 – 3:30) heblaw am yn Bloc y Chweched Dosbarth neu yn Ystafell waith y Chweched Dosbarth. Ymhob rhan arall o'r ysgol oni bai bod angen penodol mewn argyfwng sydd wedi cael ei drafod gyda'r dysgwr a'r rhieni / gwarcheidwad o flaen llaw.**
  - Mae defnydd o ddyfeisiau tu allan i'r oriau hyn ar dir yr ysgol yn gyfan gwbl ar risg y defnyddiwr.

- Nid yw'r ysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd dros ddyfeisiau a gaiff eu colli, eu dwyn neu eu difrodi yn yr ysgol, neu wrth wneud gweithgareddau a drefnir gan yr ysgol.
- Nid yw'r ysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw fethiant ar ddyfais oherwydd newidiadau a wnaed i'r ddyfais tra ar rwydwaith yr ysgol.
- Nid yw'r ysgol yn gyfrifol am gynnal a chadw eich dyfais bersonol, nac am ofal o ddydd i ddydd megis gwefru dyfeisiadau, gosod diweddariadau meddalwedd neu ddatrys problemau caledwedd.

- Rhaid i ddyfeisiau fod ar osodiad tawel trwy gydol y diwrnod ysgol ac yn ystod pob gwers oni bai bod angen penodol sydd wedi cael ei drafod gyda'r rhieni / gwarcheidwad.

Mae disgwyl i ddefnyddwyr Blwyddyn 12 – 13 ymddwyn yn gyfrifol, diogel a pharchus yn unol â Chytundebau Defnydd Derbyniol presennol; a hefyd

- Mae defnyddwyr yn gyfrifol am sicrhau y caiff eu dyfais ei diweddaru trwy gyfrwng diweddariadau meddalwedd, diogelwch ac apiau
- Mae defnyddwyr yn gyfrifol am wefru eu dyfeisiau eu hunain ac am ddiogelu a gofalu am y dyfeisiau hyn tra byddant yn yr ysgol.
- Ni chaniateir defnydd o ddyfeisiau mewn profion nac arholiadau.
- Dylid rhoi gwybodaeth i ymwelwyr am sut a phryd y caniateir iddynt ddefnyddio technoleg symudol yn unol â threfniadau diogelu lleol.
- Defnyddwyr sy'n gyfrifol am gadw'u dyfais yn gyfoes trwy ddiweddariadau meddalwedd, diogelwch ac apiau. Dylai'r gosod rhaglen gwarchod rhag firws ar y ddyfais ac ni ddylai fod yn gallu trosglwyddo heintiau i'r rhwydwaith.

Llenwch yr adrannau ar y dudalen nesaf os gwelwch yn dda i nodi eich bod wedi darllen a deall ac yn cytuno â'r adrannau sydd wedi'u cynnwys yn y Cytundeb Defnydd Derbyniol.

Os na fyddwch yn llofnodi a dychwelyd y cytundeb hwn, ni chaniateir i chi ddefnyddio systemau a dyfeisiau'r ysgol.

FFURFLEN DEFNYDD DERBYNIOL MYFYRWYR / DISGYBLION

Mae'r ffurflen hon yn gysylltiedig â'r Cytundeb Defnydd Derbyniol *myfyrwyr / disgyblion,* ac mae wedi'i hatodi wrth y ddogfen honno.
Llenwch yr adrannau isod os gwelwch yn dda i nodi eich bod wedi darllen a deall ac yn cytuno â'r adrannau sydd wedi'u cynnwys yn y Cytundeb Defnydd Derbyniol. Os na fyddwch yn llofnodi a dychwelyd y cytundeb hwn, ni chaniateir i chi ddefnyddio systemau a TGCh yr ysgol.

Rwyf wedi darllen ac rwy'n deall yr uchod ac rwy'n cytuno i ddilyn y canllawiau hyn:

- Pan fyddaf yn defnyddio systemau a dyfeisiau'r ysgol (yn yr ysgol ac oddi allan i'r ysgol)
- Pan fyddaf yn defnyddio fy nyfeisiau fy hun yn yr ysgol (pan ganiateir i mi wneud hynny) e.e. ffônau symudol, Co-bach (USB), dyfeisiau chwarae gemau, camerâu ac ati
- Byddaf yn defnyddio fy offer fy hun oddi allan i'r ysgol mewn modd sy'n gysylltiedig â bod yn aelod o'r ysgol hon, e.e. cyfathrebu ag aelodau eraill yr ysgol, defnyddio system e-bost, Moodle/Hwb neu wefan yr ysgol, ac ati.

Enw'r Myfyriwr / Disgybl	
Blwyddyn / Dosbarth	
Llofnod	
Dyddiad	

CYTUNDEB DEFNYDD DERBYNIOL RHIENI / GOFALWYR

Mae technolegau digidol wedi dod yn rhan anhepgor o fywydau plant a phobl ifanc, o fewn yr ysgol a'r tu allan. Mae'r technolegau yma yn darparu teclynnau pwerus, sydd yn rhoi cyfleoedd newydd i bawb. Gallant ysgogi trafodaeth, hyrwyddo creadigrwydd ac ysgogi ymwybyddiaeth o gyd-destun i hyrwyddo dysgu effeithiol. Dylai pobl ifanc gael hawl i fynediad diogel i'r rhyngrwyd drwy'r adeg.

DIBEN Y POLISI DEFNYDD DERBYNIOL YMA YDY I SICRHAU:

- bod pobl ifanc yn ddefnyddwyr cyfrifol ac yn aros yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd a thechnolegau cyfathrebu fel arall ar gyfer defnydd addysgiadol, personol a hamddenol.
- bod systemau'r ysgol a'r defnyddwyr yn cael eu hamddiffyn o gamddefnydd damweiniol neu bwrpasol gall roi diogelwch y systemau a'r defnyddwyr mewn perygl.
- bod rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd e-ddiogelwch ac yn cymryd rhan yn addysgu ac arwain pobl ifanc yn eu hymddygiad ar-lein.

Fel rhan o'n partneriaeth â rhieni, byddwn hefyd yn cynnig diweddariadau a chysylltiadau ar sut y gallant gefnogi eu plentyn a gwaith yr ysgol mewn perthynas ag e-ddiogelwch trwy ein gwefan / cyfrif Twitter, e-fwletinau rhieni a noson e-ddiogelwch flynyddol.

Bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau bod myfyrwyr / disgyblion yn cael mynediad da i dechnolegau digidol i fwyhau eu dysgu a fydd, yn ei dro, yn disgwyl i'r myfyrwyr / disgyblion i gytuno bod yn ddefnyddwyr cyfrifol. Mae copi o Gytundeb Defnydd Derbyniol Myfyriwr / Disgybl wedi'i atodi i'r ffurflen ganiatâd yma, fel bod rhieni / gofalwyr yn ymwybodol o ddisgwyliadau'r ysgol o bobl ifanc yn eu gofal.

Mae disgwyl i rieni arwyddo'r ffurflen ganiatâd isod i ddangos eu cefnogaeth o'r ysgol yn yr agwedd bwysig yma o'u gwaith.

Er Gwybodaeth - Nawr bod Swyddfa 365 ar gael yn rhad ac am ddim trwy HWB ar-lein, ni fyddwn yn cynnal cytundebau cartref Swyddfa 365 o 24/05/18.

Y PLATFFORM HWB:

Mae'r platfform Hwb yn darparu mynediad i'r holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru i ystod eang o offer ac adnoddau digidol dwyieithog, a ariennir yn ganolog, i gefnogi trawsnewidiad digidol arferion ystafell ddosbarth. Rheolir a gweithredir y platfform Hwb gan Lywodraeth Cymru.

Rhaid i bob disgybl mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru gael mynediad diogel i'r platfform Hwb. Mae hyn oherwydd bod profion darllen a rhifedd gorfodol, ar bapur ar hyn o bryd, yn symud ar-lein ac mae'n rhaid i bob disgybl eu cwblhau drwy'r platfform. Er mwyn darparu manylion mewngofnodi diogel [i chi / eich plentyn], bydd yr ysgol yn anfon gwybodaeth sylfaenol i Lywodraeth Cymru. Bydd y manylion mewngofnodi yn caniatáu [chi /eich plentyn] i gymryd yr asesiadau gorfodol ar-lein, a elwir yn 'asesiadau personol'.

I gael mwy o wybodaeth am y platfform Hwb a sut y mae gwybodaeth [amdanoch chi / eich plentyn] yn cael ei defnyddio, ewch i https://hwb.gov.wales/privacy.

Am fwy o wybodaeth am yr asesiadau personol ar-lein, ewch i http://learning.gov.wales/resources/collections/national-reading-and-numeracy-

tests?lang=cy#collection-2

GWASANAETHAU YCHWANEGOL:

Os ydych chi'n cytuno, gall Llywodraeth Cymru hefyd roi mynediad [i chi / eich plentyn], trwy blatfform Hwb, i amrywiaeth o wasanaethau ychwanegol a ddarperir gan sefydliadau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys amgylcheddau dysgu ar-lein fel Dosbarthiadau Hwb, Microsoft Office 365, Google for Education, ac offer ac adnoddau addysgol perthnasol eraill. Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y gwasanaethau ychwanegol hyn ar gael i helpu [chi / eich plentyn] gael mynediad at adnoddau addysgol. Mae'r gwasanaethau ychwanegol hyn yn cael eu hariannu'n ganolog ac nid oes cost i chi nac i'ch ysgol gael mynediad atynt a'u defnyddio.

Dim ond os byddwch chi'n llofnodi'r ffurflen isod i nodi'ch cytundeb y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu mynediad i'r gwasanaethau ychwanegol hyn.

Os ydych yn cytuno:

- byddwn yn dweud wrth Lywodraeth Cymru i roi mynediad i'r gwasanaethau ychwanegol.
- bydd Llywodraeth Cymru'n rhannu'r wybodaeth [amdanoch chi/eich plentyn] gyda'i darparwyr gwasanaeth, yn cynnwys Microsoft a Google Education, er mwyn galluogi mynediad at y gwasanaethau ychwanegol hyn

Os na fyddwch yn cytuno:

- byddwn yn dal i rannu gwybodaeth [amdanoch chi/eich plentyn] â Llywodraeth Cymru i sefydlu manylion mewngofnodi diogel i'r platfform Hwb, ond ni fydd yn bosibl [i chi / eich plentyn] allu defnyddio'r gwasanaethau ychwanegol.

Os hoffech dynnu'ch caniatâd yn ôl, cysylltwch â'r pennaeth [yn eich ysgol chi / eich plentyn].

FFURFLEN CANIATÂD E-DDIOGELWCH & DARPARU MYNEDIAD I BLATFFORM HWB

Enw Rhiant / Gwarcheidwad _____ **Enw Disgybl** _____

Fel rhiant / gofalwr o'r myfyriwr / disgybl uchod, rwyf yn rhoi caniatâd i'm mab / merch Ydw ☐

gael mynediad i'r rhyngrwyd ac i systemau TGCh yn yr ysgol

Rwyf yn gwybod bod fy mab / merch wedi arwyddo Cytundeb Defnydd Derbyniol ac wedi derbyn, neu am dderbyn, addysg e-ddiogelwch i'w helpu i ddeall pwysigrwydd defnydd diogel o dechnoleg a'r rhyngrwyd - y tu mewn ac oddi allan i'r ysgol. Ydw

Rwyf wedi darllen y wybodaeth ynglŷn â Phlatfform HWB ac yn cytuno y gall Llywodraeth Cymru ddarparu mynediad i fy mab/merch i wasanaethau ychwanegol a'u bod yn gallu rhannu gwybodaeth gyda'u darparwyr gwasanaeth, er mwyn galluogi mynediad i'r gwasanaethau ychwanegol hynny. Ydw

Rwy'n deall bod y ffurflen hon yn ddilys am 5 mlynedd o'r dyddiad arwyddo, neu am y cyfnod y mae fy mhlentyn yn mynychu'r ysgol hon. Bydd y caniatâd yn dod i ben yn awtomatig ar ôl yr amser hwn. Ydw ☐

Rwy'n deall y bydd y cyfnodau cadw ar gyfer gwaith cwrs fy mab/merch sydd un ai mewn ffurf bapur neu ffeiliau electronig yn dod i ben ddau fis ar ôl diwedd eu blwyddyn academaidd olaf yn yr ysgol. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn ar 31 Hydref mewn unrhyw flwyddyn. Ar ddiwedd y cyfnod cadw, bydd yr holl waith cwrs yn cael ei waredu/ei ddileu. Ydw ☐

Arwyddwyd | **Dyddiad**

FFURFLEN GANIATÂD RHIENI - YSGOL DYFFRYN CONWY

Er mwyn cydymffurfio a Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a ddaeth i rym ar 25 Mai 2018, rydym angen eich caniatâd ar gyfer y canlynol. Dylech roi • yn y blychau perthnasol os ydych chi'n rhoi caniatâd, arwyddo a dyddio'r ffurflen a'i dychwelyd i'r ysgol erbyn _____.

Enw Llawn y Disgybl: | **Blwyddyn a Dosbarth:**

Rwy'n cydnabod imi dderbyn y ddogfen Hysbysiad Preifatrwydd Ysgol. Ydw ☐

Rwy'n rhoi caniatad i'r ysgol ddefnyddio llun o'm mhlentyn mewn cyhoeddiadau'r ysgol: Ydw ☐

Rwy'n rhoi caniatad i'r ysgol ddefnyddio llun o'm mhlentyn mewn unrhyw bapur newydd, boed yn bapur bro, lleol neu genedlaethol: Ydw ☐

Rwy'n rhoi caniatad i'r ysgol ddefnyddio llun o'm mhlentyn ar wefan yr ysgol: Ydw ☐

Rwy'n rhoi caniatad i'r ysgol ddefnyddio llun o'm mhlentyn ar gyfrif 'Trydar' yr ysgol: Ydw ☐

Rwy'n rhoi caniatad i'r ysgol recordio llun o'm mhlentyn ar fideo neu we-gamera: Ydw ☐

Rwy'n rhoi caniatad i'm mhlentyn ymddangos ar y cyfryngau: Ydw ☐

Rwy'n rhoi caniatad i'r ysgol gysylltu â mi drwy lythyr, e-bost, tecst, ffôn symudol neu ffôn tŷ er mwyn gallu rhedeg ysgol ddiogel ac effeithiol: Ydw ☐

Rwy'n rhoi caniatad i'r ysgol e-bostio copi o gylchlythyrau/bwletinau ysgol ataf: Ydw ☐

Amodau defnyddio:

1. Mae'r ffurflen hon yn ddilys am 5 mlynedd o'r dyddiad y byddwch chi'n ei lofnodi, neu am y cyfnod y bydd eich plentyn yn mynychu'r ysgol hon. Bydd y caniatâd yn dod i ben yn awtomatig ar ôl yr amser hwn.
2. Ni fyddwn yn ail ddefnyddio unrhyw ffotograffau na recordiadau ar ôl i'ch plentyn adael yr ysgol hon.
3. Ni fyddwn yn defnyddio manylion personol nac enw llawn (sy'n golygu enw cyntaf a chyfenw) unrhyw blentyn neu oedolyn mewn delwedd ffotograffig neu fideo, ar ein gwefan, yn ein prosbectws ysgol neu mewn unrhyw un o'n cyhoeddiadau printiedig eraill.
4. Ni fyddwn yn cynnwys cyfeiriad e-bost neu gyfeiriad post personol, rhifau ffôn neu ffacs, ar fideo, ar ein gwefan, yn ein prosbectws ysgol neu mewn cyhoeddiadau printiedig eraill.
5. Os byddwn yn defnyddio ffotograffau o ddisgyblion unigol, ni fyddwn yn defnyddio enw'r plentyn hwnnw mewn testun cysylltiedig neu bennawd i lun.
6. Os ydym yn enwi disgybl yn y testun, ni fyddwn yn defnyddio ffotograff o'r plentyn hwnnw i fynd gyda'r erthygl.
7. Gallwn ddefnyddio lluniau neu ffotograffau grŵp neu ddosbarth gyda labeli cyffredinol iawn fel "Taith Ysgol i (gwlad / lleoliad)" neu "Gweithgareddau Codi Arian".
8. Byddwn ond yn defnyddio delweddau o ddisgyblion sydd wedi'u gwisgo'n addas, er mwyn lleihau'r perygl o'r delweddau'n cael eu defnyddio'n amhriodol.

Deallaf, os ar ôl cwblhau'r ffurflen hon y dymunaf dynnu fy nghaniatâd yn ôl o unrhyw un o'r uchod, rhaid i mi gysylltu â'r ysgol i wneud hynny.

Enw Rhiant Gwarcheidwad

Arwyddwyd (Rhiant/Gwarcheidwad) | **Dyddiad**